

Portffolio Modiwl ECEY4001/C- Datblygiad Dynol
Rydw i wedi defnyddio AI

AI-

Rydw i wedi defnyddio ChatGPT ar gyfer man cychwyn ar gyfer rhan 3.

Rhan 1- 1026 gair

Roedd Abraham Maslow yn Seicolegydd o'r Undol Delaethau America. Cafodd ei eni yn 1908 a bu farw yn 1970. Fe wnaeth creu yr hierarchaeth anghenion. Pyramid yw'r hierarchaeth anghenion. Caiff y pyramid eu dosbarthu mewn i bump haen gwahanol. Creda Maslow bod angen i berson cael pob un o'r elfennau yma er mwyn cyrraedd y haen uchaf, sef hunan-wireddu. Mae'r pyramid yma'n bwysig iawn ac yn rhoi dealltwriaeth gwell o'r aghenion hanfodol sydd gan plant a hefyd yn rhoi syniad o beth sydd yn gyrru cymhelliant dynol.	
Ar waelod y pyramid hierarchaeth anghenion, mae anghenion biolegol a chorfforol. Creda Maslow bod angen i berson cael mynediad at pob un o'r pethau yma er mwyn fyw. Heb un o'r rhain, ni fydd y corff dynol yn gweithio'n iawn (Williams, dim dyddiad). Mae'r anghenion yma yn cynnwys aer ar gyfer anadlu, bwyd a diod, cysgod, iechyd a gwres. Dyma'r anghenion sylfaenol sydd angen er mwyn bodoli. Heb un o'r rhain, bydd pobl yn cwmpo'n dost a hyd yn oed marw. Mae'r pethau yma'n hanfodol er mwyn sicrhau bod plentyn yn datblygu'n gywir (Blakely, 2023). Mae'r anghenion yma'n bwysig i fywyd ac mae diffyg un o'r pethau yma yn cael effaith mawr ar sut mae person yn ymddwyn. Os nad yw person yn cael digon o fwyd, bydden nhw wedi blino trwy'r amser, yn llwglyd ac yn wan. Mae plant hefyd yn ddioddef os mae un o'r anghenion yma ddim yn cael ei cwrdd. Heb un o'r pethau yma, bydd plentyn ddim yn barod i ddysgu yn yr ysgol, a gall hyn arwain at broblemau ymddygiad ac effeithio academaidd.	
Nesaf yn y pyramid, mae anghenion diogelwch. Mae rhain yn cynnwys diogelwch personol, cyflogaeth, iechyd, adnoddau ac eiddo. Mae'r pyramid yma wedi canolbwyntio o gwmpas yr anghenion sydd gan oedolion, ond mae hefyd gallu gweithio gyda plant. Er mwyn sicrhau bod anghenion diogelwch yn cael ei cwrdd, mae angen i oedolion sicrhau eu bod wedi cyflogu. Heb cyflog, bydd dim arian yn dod, a gall hwn effeithio anghenion biolegol a chorfforol. Mae pobl o ardaloedd difreintiedig yn fwy tebygol o fod heb swydd (Noble, 2024). Os caiff anghenion diogelwch ei cwrdd, bydd y deimlad o gael diogelwch yn ddominyddu ymddygiad a gall hyn arwain at berson teimlo'n rhydd a ddiogel wrth fynd o gwmpas ei fywyd (Pollard, 2023). Mae'r anghenion diogelwch yma'n bwysig er mwyn sicrhau bod plant yn ddatblygu i'w llawn potensial. Os ni chaiff anghenion diogelwch ei cwrdd, gall hyn arwain at berson i deimlo'n bryderus ac yn ofnus. Enghraifft o diogelwch yw yswiriant. Mae sawl fath o yswiriant ar gael er mwyn sicrhau bod anghenion diogelwch yn cael ei cwrdd. Gall hyn cynnwys yswiriant cartrefol, bywyd, car ac yswiriant iechyd. Mae anghenion diogelwch hefyd yn cynnwys llesiant. Heb lles da, ni fydd plant yn fodlon gweithio yn yr ysgol, ac yn debygol o ymddangos symptomau angenion addysgol ychwanegol, oherwydd nad ydynt yn cael y diogelwch sydd angen arnynt.	
Nesaf ar byrmaid anghenion Maslow mae perthynas a chariad. Mae'r anghenion yma'n cynnwys ffrindiau ar gyfer cymorth cymdeithasol. Heb ffrindiau yn yr ysgol, bydd plentyn ddim yn datblygu sgiliau cymdeithasol, a ni fydden nhw'n dysgu sut i chwarae gyda pobl arall. Mae cyfeillgarwch yn bwysig iawn er mwyn cadw'n iachus. Gall diffyg cyfeillgarwch arwain at deimlo'n unig. Mae cael ffrindiau yn hybu'r deimlad o hunan-werth, hunan-hyder a hunan-barch (Holman, 2024). Hefyd ar haen yma'r pyramid, mae teulu ac ymdeimlad o gyswllt. Mae teulu yn bwysig iawn i blentyn. Mae'r uned teuluol yn elfen sylfaenol o fewn bywyd plentyn, sydd yn darparu cymorth emosiynol, ymdeimlad o berthyn, a fframwaith ar gyfer datblygiad cymdeithasol a hefyd datblygiad personol. Mae hi'n hanfodol i unrhyw berson cael eu geni mewn i deulu cariadus a chefnogol er mwyn iddynt tyfu a datblygu mewn i berson hapus a chariadus (Mpaso, 2024). Ar gyfer oedolion, mae agosatrwydd. Mae agosatrwydd a perthynas yn bwysig iawn er mwyn cadw iechyd meddwl yn dda. Mae pobl yn creduriaid sydd â chwant cymdeithasu ag eraill. Heb y cyfathrebiad gyda pobl arall, mae pobl yn mynd yn unig iawn.	
Ar ôl yr anghenion corfforol, diogelwch a pherthyn, mae parch. Mae parch yn gysylltiedig ag angen person i ennill cydwbyddiaeth, statws ac i deimlo fel ei bod yn cael ei pharchu. Unwaith mae'r anghenion corfforol, diogelwch a pherthyn yn cael ei cwrdd, mae pobl yn ceisio cyflawni eu ahnghenion parch (Tîm CFI, dim dyddiad). Mae hunan-barch yn elfen pwysig iawn o fewn bywyd plentyn. Hunan-barch yw un o'r pethau sydd yn helpu pobl ymdopi gyda camsyniadau a pryd mae pethau'n mynd yn anghywir. Mae'n cynnwys gwerthusiad o'r hunain sydd yn arwain at deimladau positif neu negyddol o hunan. Mae'r gwerthusiad yma'n adlewyrchu sut rydym yn dychmygu mae pobl yn ein gweld ni. Pan mae plant yn credu bod eraill yn meddwl yn wael amdanynt, maent yn teimlo'n wael am ei hunain (Kennedy-Moore, 2019). Y wahanïaeth rhwng plentyn sydd yn edrych am hunan-barch a phlentyn gyda hunan-barch yw bod y plentyn gyda hunan-barch gyda'r tuedd o fod yn fwy hyderus ac yn mwy fodlon i drio pethau newydd. Mae hwn yn bwysig iawn o fewn datblygiad plentyn, gan ei fod yn gallu tyfu lan gyda hunan-hyder a hunan-barch isel sydd yn gallu arwain as iselder, a ddim eisiau gwella ei hunain a chyrraedd hunan- wireddu.	
Hunan-wireddu i Maslow yw'r gallu i fod yr orau gall rhywun fod, "This tendency might be phrased as the desire to become more and more what one is, to become everything that one is capable of becoming." Fel arfer, ni fydd person yn ceisio symyd o anghenion haenau isel i'r anghenion uchaf tan bod pob angen wedi cwrdd. Ychwanegodd Maslow bod hi'n bosib i berson symyd ymlaen i'r haen nesaf cyn sicrhau pob angen, a bod dim ond angen i berson sicrhau bod anghenion yn cael eu cwrdd yn rhannol (Vinney, 2024). Mae hunan-wireddu gallu sicrhau datblygiad holistig cadarnhaol ac effeithiol ym mhlant. Mae'n galluogi plant i dargnafod diddordebau a hefyd i mynegi eu hunain trwy datblygu sgiliau. Er mwyn sicrhau hunan-wireddu yn y flynddoedd cynnar, mae cynnig cyfleoedd i blant mynegi eu hunain trwy celf, cerddoriaeth a chwarae rôl a dychmygol. Dyma'r celfyddau mynegianol. (Care learning, 2024).	

Cyfeinodi:

Blakely S, (2023), *Maslow's Hierarchy of Physiological Needs | Definitions and Examples*, Ar gael ar: <https://study.com/learn/lesson/psychological-needs-examples-maslow.html#:~:text=Physiological%20needs%20are%20the%20needs,must%20eat%20regular%2C%20sufficient%20meals>. (Darllenwyd ar 24ain o Dachwedd 2024).

Care Learning, (2024), *Examples of Maslow's Hierarchy of Needs in Early Years*, Ar gael ar: <https://carelearning.org.uk/early-years/models-theory/examples-of-maslows-hierarchy-of-needs-in-early-years/#:~:text=Self%20actualisation%20in%20early%20years,%2C%20music%2C%20and%20imaginative%20play>. (Darllenwyd 24ain o Dachwedd 2024).

CFI Team, (dim dyddiad), *Maslow's Hierarchy of Needs*, Ar gael ar: <https://corporatefinanceinstitute.com> (Darllenwyd 24ain o Dachwedd 2024).

Holman T, (2024), *Why is friendship important? Suprising health benefits of having friends*, Ar gael ar: <https://www.hcahoustonhealthcare.com/healthy-living/blog/why-is-friendship-important-surprising-health-benefits-of-having-friends> (Darllenwyd ar 24ain o Dachwedd).

Kennedy-Moore E, (2019) *Kid Confidence, Help your Child Make Friends, Build Resilience, and Develop Real Self-esteem*, New Harbinger Publications inc, California, UDA.

Mpaso J, (2024) *The Importance of Family Structure*. Ar gael ar: <https://groundswell-listenup-hub.org/the-importance-of-family-structure/#:~:text=The%20family%20unit%20is%20a,%2C%20and%20overall%20well%20being>. (Darllenwyd ar 24ain o Dachwedd 2024).

Noble S, (2024) *Mind the Gap- how did deprived areas fare in the recession?* Ar gael ar: <https://ocsi.uk/2017/09/09/mind-the-gap-how-did-deprived-areas-fare-in-the-recession/#:~:text=Employment%20rates%20in%20the%20most,likely%20to%20have%20a%20degree>. (Darllenwyd ar 23ain o Dachwedd 2024).

Pollard R, (2023) *Maslow's Hierarchy of Needs | Safety & Security*, Ar gael ar: <https://study.com/academy/lesson/maslows-safety-needs-examples-definition-quiz.html#:~:text=Safety%20needs%20in%20Maslow's%20hierarchy%20refer%20to%20the%20need%20for,is%20somewhat%20within%20our%20control>. (Darllenwyd ar 23ain o Dachwedd 2024).

Vinney C, (2024), *Understanding Maslow's Theory of Self-Actualization*, Ar gael ar: <https://thoughtco.com> (Darllenwyd 24ain o Dachwedd 2024).

Williams L, (dim dyddiad), *Maslow's Hierarchy of Needs*, Ar gael ar: <https://courses.lumenlearning.com/wm-introductiontobusiness/chapter/maslows-hierarchy-of-needs/#:~:text=At%20the%20bottom%20of%20the,body%20cannot%20continue%20to%20function>. (Darllenwyd ar 24ain o Dachwedd 2024).

Rhan 2- 1026 gair

Cysyniad Datblygiad Holistig Plant

Yn y drafodaeth feirniadol yma, rydw i fynd i drafod beth yw datblygiad holistig a pham mae'n bwysig i'r cyfnod sylfaen a blynyddoedd cynnar. Byddaf hefyd yn trafod theori Maslow a Vygotsky a'u pwysigrwydd i'r flynyddoedd cynnar a datblygiad holistig plant.

Datblygiad holistig plant yw datblygiad cyfan blentyn. Mae datblygiad holistig yn edrych ar bob maes datblygu. Yn y blynyddoedd cynnar, caiff datblygiad holistig ei wahanu mewn i feysydd datblygiad gwahanol sef, corfforol, gwybyddol, cymdeithasol, emosiynol. Datblygiad corfforol yw sgiliau'r corff. Mae'r sgiliau yma'n cynnwys cerdded, rhedeg a neidio. Mae datblygiad corfforol yn galluogi datblygiad gwybyddol. Hefyd, mae datblygiad corfforol yn galluogi plant i ehangu eu dealltwriaeth o'r amgylchedd ac i wella hunan-barch (Cyngor Buckinghamshire, dim dyddiad). Mae'r datganiad yma'n cysylltu gyda theori hierarchaeth Maslow. Creda fe bod angen i anghenion plant cael eu cwrdd er mwyn cyrraedd hunan-wireddu. Ni fydd hyn yn bosib os nad yw anghenion plant yn cael eu cwrdd.

Datblygiad cymdeithasol yw lle mae plentyn yn datblygu sgiliau cyfathrebu. Gall cyfathrebiad bod ar lafar, neu ddim. Cyfathrebiad llafar, yw siarad a gwneud synau, tra bod cyfathrebiad arall yn cynnwys ystumiau, mynegiant wynebol a chorfforol. Yn ôl Novak (2020), dim ond 7% o bob math o gyfathrebiad, yw gyfathrebiad llafar. Datblygiad deallusol yw datblygiad yr ymennydd. Yn y blynyddoedd cynnar, mae'r maes datblygu yma'n cynnwys sgiliau cof, datrys problemau a gallu meddyliol. Datblygiad emosiynol yw sut mae plant yn datblygu emosiynau, yr allu i reoli emosiynau a'r ffordd maent yn ymateb i feirniad neu bethau negyddol a phositif.

Mae datblygiad holistig yn bwysig i'r flynyddoedd cynnar oherwydd dyna yw'r flynyddoedd mwyaf pwysig mewn bywyd plentyn ar gyfer twf a datblygiad. Mae 90% o dwf yr ymennydd yn digwydd cyn 5 oed (GIG Cymru). Mae datblygiad holistig yn hanfodol yn ystod blynyddoedd cynnar plentyndod oherwydd ei fod yn darparu sylfaen gref ar gyfer dysgu hir dymor a lles y plentyn. Trwy feithrin pob agwedd ar ddatblygiad plentyn, gall addysgwyr eu helpu i: gyrraedd eu llawn botensial. datblygu ymdeimlad cadarnhaol o hunan (Prifysgol Frenhines Margaret, 2023).

Roedd Lev Vygotsky yn Seicolegydd o Rwsia. Creda Vygotsky bod datblygiad gwybyddol a gallu addysgol plant yn cael ei effeithio gan ei chyfleoedd cymdeithasu. Yn debyg iawn i Maslow, sy'n credu bod gan blant anghenion sydd angen cael ei chwrrd er mwyn datblygu i fod yr orau gallant nhw fod. Creda Vygotsky ein bod ni gyd yn cael ei eni gyda phedwar swyddogaethau meddwl elfennol, sef cof, sylw, teimlad a chanfyddiad. (Sprouts, 2020). Os nad yw anghenion cymdeithasol plant yn cael eu cwrdd, bydd datblygiad gwybyddol yn araf, neu ddim yn digwydd. Mae'n bwysig i blant cael cyfleoedd cyfathrebu ar gyfer ei llesiant hefyd.

M Mae yna sawl peth a ffactorau gwahanol sy'n gallu effeithio datblygiad holistig plant. Mae'n bosib fod plentyn yn dost. Mae plentyn sydd yn dost iawn yn yr ysbyty ddim yn cael yr un cyfleoedd cyfathrebu a phlant sydd mewn ysgol. Bydd y plentyn yma'n cyfathrebu gyda gweithwyr yr ysbyty, ond nid yn cael plentyndod arferol lle gallant nhw chwarae gyda phlant yr un oed. Bydd y sefyllfa yma yn cael effaith negyddol ar ddatblygiad holistig y plentyn. Ar byramid Hierarchaeth Maslow, mae iechyd yn cwympo mewn i'r haen anghenion diogelwch. Gan fod dim iechyd da, bydd plentyn ddim yn gallu cyrraedd hunan-wireddu sydd yn gallu arwain at iselder ar ben cyflwr meddygol.

Ffactor arall sy'n gallu effeithio datblygiad holistig plant yw rhieni sydd â phroblemau yfed a chyffuriau. Bydd y plant yma'n colli ymlyniad pwysig iawn iddynt. Yn ôl Bowlby, mae pawb yn cael ei eni gyda'r angen i greu ymlyniad (Brodie K, 2024). Hefyd, creda Bowlby fod profiadau cynnar o ymlyniad yn creu 'fodel gweithio' ym mhiant sydd yn eu galluogi nhw i greu ymlyniadau eilaidd, sydd yn arwain at yr allu i greu ffrindiau gyda chyfoedion ac ymhellach ym mywyd, perthnasoedd cariadus a pherthnasedd rhiant (Rose N, 2019).

Mae theori ymlyniad Bowlby yn bwysig iawn ym mhyramid hierarchaeth Maslow oherwydd mae teimlad o berthyn yn gam tuag at gyrraedd hunan-wireddu. Os nad yw plentyn yn derbyn y gariad a gofal sydd angen arnynt, ni fydden nhw allu datblygu ymlyniad (McKechnie D, 2024). Gall hwn effeithio datblygiad holistig oherwydd dyw anghenion hanfodol ac angenrheidiol yn cael ei chwrrd. Mae sawl peth gallu effeithio ymlyniad, fel sefyllfa deuluol. Er enghraifft, os yw plentyn yn cael ei gam-drin neu eu hesgeuluso, ni fydd yn datblygu'n gyfannol, a ni fyd llawer o dwf yn digwydd nes iddynt gyrraedd ysgol, neu dderbyn cymorth wrth weithwyr cymdeithasol. Mae theori Bowlby hefyd yn bwysig i ymarfer oherwydd mae plant sydd ag ymlyniadau gwael gyda'i gofalwr allweddol yn debygol o fod yn fwy beirniadol o'r hunain ac yn ymddangos gyda hunan-barch a hyder isel (Brightwheel, 2023).

Roedd Mary Ainsworth yn Seicolegydd o Ganada-America, a chaiff hi ei hysbrydoli gan theori ymlyniad Bowlby. Gweithiodd hi i brofi'r theori ymlyniad, ac roedd hi'n fwyaf adnabyddus am greu'r 'Sefyllfa Ryfedd'. Creda hi fod rhaid i blant a Babanod datblygu ymlyniad cadarn gyda gofalwr allweddol, fel arfer rhieni, cyn chwilio am sefyllfaoedd anghyfarwydd (Webster D, 2023). Yn debyg iawn i theori Bowlby, mae theori Ainsworth yn bwysig i ddatblygiad holistig plant oherwydd mae'r arbrawf 'sefyllfa ryfedd' yn dangos i ni fod angen ymlyniad sicr gyda rhiant er mwyn bod yn barod i greu ymlyniad gyda gofalwyr allweddol eilaidd pe bai yn yr ysgol, neu mewn creche. Trwy edrych ar hierarchaeth anghenion Maslow, mae'n dangos bod angen cariad er mwyn teimlo'n ddiogel.

Cyfeirnodï-

Brightwheel, (2023) *Attachment Theory in Early Childhood Education*, Ar gael ar: <https://mybrightwheel.com/blog/attachment-theory-in-early-childhood> (Wedi darllen 27ain o Dachwedd 2024).

Early Years TV, (2024) *John Bowlby's Attachment Theory and Developmental Phases*. Ar gael ar: <https://www.earlyyears.tv/john-bowlbys-attachment-theory-and-developmental-phases> (Wedi darllen ar 27ain o Dachwedd 2024).

GIG Cymru (dim dyddiad), *Early Learning and Development*, Ar gael ar: <https://www.nhs.uk/start-for-life/early-learning-development/#:~:text=90%25%20of%20your%20child's%20brain,develop%20confidence%20and%20make%20friends>. (Wedi darllen ar 26ain o Dachwedd 2024).

McKechie D, (2024) *Child attachment disorder*, (cyhoeddi ar-lein 8fed o Hydref 2024), Ar gael ar: <https://patient.info/childrens-health/child-attachment-disorder-leaflet#> (Wedi darllen 27ain o Dachwedd 2024).

Novak D, (2020), *Killing the Myth That 93% Of Communication is Nonverbal*, (cyhoeddi ar-lein 17/03/2020) Ar gael ar: <https://davidnovak.com/writing/article/2020/03/killing-the-myth-that-93-of-communication-is-nonverbal>. (Wedi darllen 26ain o Dachwedd 2024).

Prifysgol y Frenhines Margaret (2023) *Nurturing Holistic Development in Early Childhood*, (cyhoeddi ar-lein 5ed o Fedi 2023) Ar gael ar: <https://online.qmu.ac.uk/blogs/nurturing-holistic-development-in-early-childhood/#:~:text=Holistic%20development%20is%20vital%20during,a%20positive%20sense%20of%20self> (Wedi darllen 26ain o Dachwedd 2024).

Rose N, (2019), *Attachment theory: what do teachers need to know?* Ar gael ar: <https://researched.org.uk/2019/02/28/attachment-theory-what-do-teachers-need-to-know/#:~:text=Bowlby%20believed%20these%20early%20experiences,parenting%20relationships%20in%20adult%20life>. (Wedi darllen 27ain o Dachwedd 2024).

Sector Blynyddoedd Cynnar, Cyngor Buckinghamshire (dim dyddiad) *Physical Development* "Ar gael ar: <https://earlyyearsweb.buckinghamshire.gov.uk/eyfs/early-years-foundation-stage/physical-development/#:~:text=The%20development%20of%20movement%20skills,development%20supports%20their%20overall%20achievement>." (Wedi darllen ar 25ain o Dachwedd 2024).

Sprouts (2020) *Vygotsky's Theory Of Cognitive Development in Social Relationships*, Ar gael ar: <https://www.youtube.com/watch?v=8I2hrSRbmHE&t=2s> (Wedi gwyllo ar 27ain o Dachwedd 2024).

Webster D, (2023), *Mary Ainsworth's Biography, Theory & Contribution*, Ar gael ar: <https://study.com/academy/lesson/mary-ainsworth-theory-biography-quiz.html#:~:text=Mary%20Ainsworth's%20attachment%20theory%20is,parents%20before%20seeking%20unfamiliar%20situations>. (Wedi darllen 27ain o Dachwedd 2024).

Rhan 3- 919 gair

Arwyddocâd Maslow o ran deall datblygiad plant

Yn y rhan yma, byddaf yn trafod pwysigrwydd hierarchaeth Maslow yn y blynyddoedd cynnar a sut mae'n gysylltiedig i ddatblygiad plant. Mae Maslow wedi cael effaith enfawr ar ymarfer proffesiynol, a sut mae gweithwyr yn helpu plant i ddatblygu trwy ei hierarchaeth anghenion.

Mae pontio yn rhywbeth mae pawb yn mynd trwy. Enghraifft o bontio yw plentyn yn dechrau ysgol am y tro cyntaf. I rai o blant, dyma yw'r tro cyntaf maen nhw'n gadael rhieni am gyfnod hir. Mae pontio yn rhan arferol o fywyd ac yn galluogi plant a phobl ifanc i ddatblygu gwytnwch (Freud A, dim dyddiad).

Ar gyfer helpu'r broses o bontio i blant a hefyd teuluoedd, mae rhai ysgolion yn cynnig diwrnod agored, lle gal rhieni a phlant dod i'r ysgol i gwrdd ag athrawon a gweld y dosbarth cyn iddynt ddechrau. Mae'r diwrnod yma'n galluogi gweithwyr i greu a meithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda rhieni a phlant o flaen llaw er mwyn sicrhau bod y bontio'n esmwyth. Mae cefnogi pontio yn y blynyddoedd cynnar nid yn unig yn cefnogi'r plant ond hefyd yn cefnogi rhieni trwy wneud iddynt deimlo'n gyfforddus wrth iddyn nhw fynd drwy'r broses pontio (Harman A, dim dyddiad).

Trwy gael diwrnodau pontio, mae'n darparu cyfleoedd i feithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda rhieni, sydd yn galluogi plant i ddod i'r ysgol yn hapus oherwydd mae perthynas cadarnhaol yn dod mewn i haen cariad a pherthyn hierarchaeth Maslow. Mae'r haen yma'n galluogi plant i deimlo'n ddiogel mewn lleoliad, a bydd fodlondeb rhieni hefyd yn helpu'r broses pontio yma. Mae'r teimlad o gariad a pherthyn yn bwysig iawn i blant oherwydd mae'n gam arwyddocaol yn ei datblygiad. Unwaith mae plant yn cael anghenion diogelwch eu cwrdd, mae'r angen am gariad a pherthyn yn bwysig oherwydd mae angen iddynt deimlo'n bwysig i bobl arall ac i deimlo fel ei bod yn rhan o rywbeth (O'Hara-Leslie E et al. Dim dyddiad).

Enghraifft arall o bontio yw symud tŷ. Gall symud tŷ effeithio hunanhyder a hunanhyder blant. Mae pyramid hierarchaeth Maslow yn bwysig i bontio pan ystyried symud tŷ, oherwydd mae'n effeithio sut bydd plentyn yn cyrraedd yr haen uchaf ac olaf, sef hunan-wireddu. Bydd plentyn sydd yn ddiffyg hunanhyder a hunan-barch yn dangos symptomau gorfywiogrwydd. Rydym yn gwybod hyn oherwydd arbrawf cychwynnodd gan y CPC, sydd wedi dangos bod plant sydd wedi symud tŷ unwaith cyn yr oed 10, yn fwy gorfywiog wrth gymharu â phlant sydd heb symud tŷ, ac yn waeth i blant sydd wedi symud mwy nag unwaith (Fiori F, 2021).

Cam yn ddatblygiad plant yw annibyniaeth. Mae yna sawl peth sydd yn digwydd yn ysgolion sydd yn annog annibyniaeth plant. Enghraifft o annog annibyniaeth mewn lleoliad ysgol, yw danfon plant i gasglu eiddo ar ddiwedd diwrnod. Yn y dosbarth meithrin, bydd athrawon a chynorthwyr fel arfer yn rhoi bagiau, cotiau, siwmperi a diodydd plant iddyn nhw ar ddiwedd y bore/prynhawn, ond erbyn iddynt gyrraedd blwyddyn chwech, bydden nhw'n gwneud popeth ben ei hunain yn annibynnol. Er mwyn hybu annibyniaeth yn y blynyddoedd cynnar, bydd plant yn dechrau mynd i ôl eu pethau nhw ar ddiwedd y dydd ben ei hunain yn y dosbarth derbyn.

Mae'r broses yma'n hybu plant i fod yn annibynnol ac yn cysylltu mewn i hierarchaeth anghenion Maslow trwy helpu plant i gyrraedd hunain-wireddu. O brofiad, mae plant yn mwynhau gwneud hwn oherwydd maen nhw'n teimlo fel plant mawr ac yn mwynhau cael cyfrifoldebau. Mae hwn yn galluogi datblygiad plant oherwydd mae rhaid iddyn nhw gofio pethau, sydd yn hybu datblygiad gwybyddol. Mae datblygiad gwybyddol yn bwysig yn y blynyddoedd cynnar er mwyn sicrhau anibyddiaeth. Trwy annog sgiliau annibyniaeth, mae gweithwyr hefyd yn annog meddwl yn feirniadol, oherwydd mae'n annog plant i weld sefyllfa, a meddwl am gynllun gweithredu, sut maent yn gwneud y peth? Mae pethau bach fel hyn yn annog plant i wella ei meddwl beirniadol ac yn galluogi nhw i greu penderfyniadau gwybodus (TeachKloud, 2023).

Yn ôl Piaget, mae plant yn dysgu trwy brofiad a gwneud (Cherry K, 2023). Mae annog annibyddiaeth ym mhiant yn helpu nhw i baratoi ar gyfer bywyd. Enghraifft arall o adeiladu sgiliau annibyniaeth ym mhiant yn y blynyddoedd cynnar, mae darpariaeth ardaloedd ar gael. Darpariaeth ardaloedd yw'r gweithgareddau sydd ar gael o gwmpas y dosbarth yn y cyfnod sylfaen, lle mae plant yn rhydd i fynd ag os nad ydynt yn gwneud gwaith. Mae'r cwricwlwm i Gymru yn hybu hwn ym mhob ysgol gynradd. Gall yr ardaloedd yma helpu datblygu sgiliau datblygiad plant mewn sawl ffordd. Mae'n bosib cael ardal toes, sydd yn helpu adeiladu cyhyrau bysedd a dwylo er mwyn paratoi plant i ddal pensil neu ben. Mae hwn yn helpu plant datblygu'n gorfforol.

Mae datblygiad corfforol plant yn bwysig iawn er mwyn sicrhau bod anghenion plant yn cael ei chwrdd. Mae pyramid hierarchaeth Maslow yn bwysig pan ystyried datblygiad corfforol plant oherwydd mae angen i blant cael hunan-hyder er mwyn cyrraedd hunan-wireddu. Mae'n bwysig i blant cael hunan-hyder, ac mae plant gallu teimlo'n hunan-wybodol, enwedig os nad ydynt wedi datblygu'r un ffordd a phlant arall.

Mae'n bwysig i weithwyr proffesiynol yn y blynyddoedd cynnar i helpu datblygu hunan-hyder plant. Gall hwn cael ei gwneud trwy dreulio amser gyda phlant i ddod i adnabod diddordebau a hoff bethau plant. Trwy gynnal gweithgareddau sy'n seiliedig ar ddiddordebau plant, mae'n debygol fod plentyn mynd i gael diddordeb yn y gweithgaredd ac yn datblygu sgiliau academaidd yn ifanc iawn efallai heb sylweddoli. Mae hwn hefyd yn gwneud yn siŵr bod plant yn mwynhau bod yn yr ysgol a hefyd yn sicrhau datblygiad holistig cadarnhaol.

Cyfeirnod-

Cherry K, (2023) *Jean Piaget Biography (1896-1980)*, Ar gael ar: <https://www.verywellmind.com/jean-piaget-biography-1896-1980-2795549> [Cyhoeddi ar-lein 13 o Dachwedd 2023] (Wedi darllen ar 30ain o Dachwedd 2024).

Fiori F, (2021), *Moving home during childhood: Is it harmful?* Ar gael ar: https://www.cpc.ac.uk/docs/2021_PB65_Moving_home_during_childhood_is_it_harmful.pdf (Wedi darllen ar 30ain o Dachwedd 2024).

Freud A, (dim dyddiad), *Transitions*, Ar gael ar <https://www.mentallyhealthyschools.org.uk> (Wedi darllen ar 29ain o Dachwedd 2024).

Harman A, (dim dyddiad) *Why is transition important in Early Years?* Ar gael ar: <https://www.twinkl.co.uk/blog/why-is-transition-important-in-early-years>, (Wedi darllen 30ain o Dachwedd 2024).

O'Hara-Leslie E *et al.* (dim dyddiad) *Maslow's Hierarchy of Needs Applied to Children*, Ar gael ar: [https://med.libretexts.org/Bookshelves/Allied_Health/Foundations_for_Assisting_in_Home_Care_\(McLain_O'Hara-Leslie_and_Wade\)/04%3A_Working_with_Children/4.02%3A_Maslows_Hierarchy_of_Needs_Applied_to_Children#:~:text=Need%20for%20Love%20and%20Belonging,Once%20children%20have&text=This%20need%20includes%20feeling%20that,of%20their%20family%20and%20community](https://med.libretexts.org/Bookshelves/Allied_Health/Foundations_for_Assisting_in_Home_Care_(McLain_O'Hara-Leslie_and_Wade)/04%3A_Working_with_Children/4.02%3A_Maslows_Hierarchy_of_Needs_Applied_to_Children#:~:text=Need%20for%20Love%20and%20Belonging,Once%20children%20have&text=This%20need%20includes%20feeling%20that,of%20their%20family%20and%20community) (Wedi darllen 30ain o Dachwedd 2024).

TeachKloud (2023), *Strategies to Foster Independent Learning in Early Years*, Ar gael ar: <https://teachkloud.com/early-childhood-education/strategies-to-foster-independent-learning-in-early-years/#:~:text=Critical%20Thinking%3A%20Independent%20learning%20encourages,them%20to%20make%20informed%20decisions> (Wedi cyhoeddi ar-lein 2il o Hydref 2023) (Wedi darllen 30ain o Dachwedd 2024).